

## Adolygiad o Gynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Gwynedd

Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4404A2024

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Adroddiad cryno	
Pam y cynhaliom ni'r archwiliad hwn	4
Ein dyletswyddau archwilio	4
Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn	4
Pam fod cynaliadwyedd ariannol yn bwysig	4
Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a sut y mae da'n edrych	4
Ein dulliau archwilio a phryd y gwnaethom gynnal yr archwiliad	6
Yr hyn a ganfuom	6
Ein hargymhellion ar gyfer y Cyngor	8
Atodiadau	
Atodiad 1 – cwestiynau a meini prawf archwilio	9

# Adroddiad cryno

## Pam y cynhaliom ni'r archwiliad hwn

### Ein dyletswyddau archwilio

- 1 Rhaid i'r Cyngor sefydlu trefniadau i gael gwerth am arian o'r adnoddau y mae'n eu defnyddio, a rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol fod wedi'i argyhoeddi ei fod wedi gwneud hyn.
- 2 Fe gynhaliom ni'r archwiliad hwn i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol dan adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Gall hefyd oleuo astudiaeth i wella gwerth am arian dan adran 41 Deddf 2004, a/neu archwiliad a gynhelir gan yr Archwilydd Cyffredinol dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

### Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn

- 3 Darparu sicrwydd bod gan gynghorau drefniadau priodol i ategu eu cynaliadwyedd ariannol.
- 4 Egluro sefyllfa ariannol cynghorau a'r pwysau allweddol ar gyllidebau a risgiau i'w cynaliadwyedd ariannol.

## Pam fod cynaliadwyedd ariannol yn bwysig

- 5 Mae cyfuniad o ffactorau gan gynnwys cost gynyddol darparu gwasanaethau a mwy o alw am rai gwasanaethau'n gosod pwysau sylweddol ar gyllid llywodraeth leol.
- 6 Er gwaethaf y pwysau hyn, mae'n dal yn ofynnol i gynghorau bennu cyllideb fantoledig gan ddarparu nifer o wasanaethau statudol ar yr un pryd. Mae cynghorau hefyd yn darparu ystod o wasanaethau anstatudol y mae cymunedau'n dibynnu arnynt.
- 7 Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig bod cynghorau'n datblygu dull strategol o ymdrin â'u cynaliadwyedd ariannol dros y tymor hwy i'w helpu i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio eu hadnoddau.

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a sut y mae da'n edrych<sup>1</sup>

- 8 Fe wnaethom adolygu dull strategol y Cyngor o ategu ei gynaliadwyedd ariannol, ei ddealltwriaeth am ei sefyllfa ariannol gyfredol, a'i drefniadau ar gyfer adrodd a bod

<sup>1</sup> A ddiffinnir fel 'yr hyn ddylai fod' yn ôl deddfau neu reoliadau, 'yr hyn a ddisgwylir' yn ôl arfer da, neu 'yr hyn allai fod', pe bai'r amodau'n well.

â goruchwyliaeth ar ei gynaliadwyedd ariannol. Roedd yr archwiliad hwn yn gyfyngedig i ystyried y trefniadau y mae'r Cyngor wedi'u sefydlu i ategu ei gynaliadwyedd ariannol. Nid adolygiad o reolaeth ariannol ehangach y Cyngor ydoedd, nac o'r penderfyniadau ariannol y mae'r Cyngor wedi'u gwneud neu'n bwriadu eu gwneud.

- 9 Rydym yn cydnabod y bydd rhai ffactorau a fydd yn effeithio ar gynaliadwyedd ariannol cynghorau y tu hwnt i gwmpas yr archwiliad hwn, gan bod yr archwiliad hwn wedi canolbwyntio ar y trefniadau y mae cynghorau'n eu sefydlu. Fodd bynnag, lle gwnaethom adnabod materion cyffredin trwy ein gwaith maes sy'n mynd y tu hwnt i'r trefniadau y mae cynghorau wedi'u rhoi ar waith, byddwn yn adrodd ar y rhain yn ein hadroddiad cryno cenedlaethol arfaethedig.
- 10 Rydym hefyd yn cydnabod yr heriau ariannol digynsail y mae cynghorau wedi'u hwynebu ers blynyddoedd lawer ac rydym yn debygol o barhau i'w hwynebu am o leiaf y tymor canolig. Mae hyn yn cynnwys pwysau ariannu'r sector cyhoeddus a ddilynodd yr argyfwng ariannol yn 2008 ac effaith y pandemig ar y pryd a'i ôl-ffeithiau parhaus. Yn fwy diweddar mae cynghorau hefyd wedi wynebu gostyngiadau sylweddol mewn termau real mewn pŵer gwario o ganlyniad i'r cynnydd cyflymaf mewn chwyddiant ers degawdau. Ochr yn ochr â'r holl ddigwyddiadau hyn, bu cynnydd sylweddol yn y galw am rai gwasanaethau hefyd, gan gynnwys, er enghraifft, effaith poblogaeth sy'n heneiddio a'r galw cynyddol am rai gwasanaethau. Mae'r ffactorau hyn yn bennaf y tu hwnt i reolaeth unrhyw gyngor unigol.
- 11 Yn erbyn y cefndir tymor hir hwn o heriau ariannol mae angen i gynghorau ymateb i heriau mwy diweddar yn gyflym ac rydym yn deall, yn anochel, mewn llawer, os nad pob cyngor, fod rhai o'r manylion penodol o ran sut y bydd pwysau ariannol yn cael eu taclo dros y tymor canolig yn dal i gael eu penderfynu. Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein barn ar drefniadau ariannol y Cyngor, a lle bo'n briodol lle credwn y gellid cryfhau'r rhain i helpu i wella cynaliadwyedd ariannol y Cyngor dros y tymor canolig. Dylid edrych ar ein hadroddiad yng nghyd-destun y pwysau ariannol ehangach a hirdymor hyn.
- 12 Roedd yr archwiliad yn ceisio ateb y cwestiwn ar y cyfan – **A oes gan y Cyngor drefniadau priodol i ategu ei gynaliadwyedd ariannol?** I wneud hyn fe wnaethom fwrw golwg ar y cwestiynau canlynol:
- A oes gan y Cyngor strategaeth eglur ar gyfer ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor?
  - A yw strategaeth ariannol y Cyngor wedi'i hategu gan ddealltwriaeth eglur am ei sefyllfa ariannol?
  - A yw trefniadau adrodd y Cyngor yn ategu goruchwyliaeth reolaidd ar ei gynaliadwyedd ariannol?
- 13 Caiff y meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i asesu trefniadau'r Cyngor yn erbyn pob un o'n cwestiynau eu nodi yn **Atodiad 1**. Goleuwyd hyn gan ein gwybodaeth gronnsus, yn ogystal â thynnu ar rai cyhoeddiadau gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).



## Ein dulliau archwilio a phryd y cynhaliom ni'r archwiliad

- 14 Mae ein canfyddiadau'n seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau a chyfweliadau â sampl o gynghorwyr ac uwch swyddogion. Mae'r dystiolaeth yr ydym wedi'i defnyddio i oleuo ein canfyddiadau'n gyfyngedig i'r ffynonellau hyn. Fe wnaethom y gwaith hwn rhwng Ebrill a Mai 2024.
- 15 Rydym yn gwneud y gwaith hwn ym mhob un o'r 22 o brif awdurdodau yng Nghymru ac, yn ogystal ag adrodd yn lleol wrth bob cyngor, rydym hefyd yn bwriadu cynhyrchu adroddiad cenedlaethol.



## Yr hyn a ganfuom

- 16 Ar y cyfan canfuom bod cynnydd sylweddol yn y nifer o adrannau'r Cyngor sydd yn gorwario yn y ddwy flwyddyn ariannol ddiwethaf, a mae wedi datblygu trefniadau i adolygu ei gyllidebau. Nid yw eto i nodi sut y bydd yn mynd i'r afael â bylchau cyllid yn y dyfodol. Rydym yn nodi isod pam y daethom i'r casgliad hwn.
- 17 Nid yw'r Cyngor wedi gweithredu strategaeth hirdymor eto i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol. Mae'r Cyngor wedi dechrau datblygu dull strategol, er enghraifft drwy sefydlu trefniadau i asesu effaith gwasanaethau ar ddinasyddion, a deall elfennau statudol a dewisol gwahanol swyddogaethau. Mae hefyd wedi gwneud ymchwil i ddeall maint a natur y galw hirdymor mewn gwasanaethau oedolion. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod cynigion arbedion yn cael eu harfarnu'n seiliedig ar eu heffaith ddisgwyliedig ar ddinasyddion, nawr ac yn y dyfodol. Bydd adeiladu ar hyn a gweithredu strategaeth ariannol yn helpu'r Cyngor i nodi'r arbedion sydd eu hangen i gau ei fylchau cyllid yn ystod y tair blynedd nesaf a thu hwnt.
- 18 Mae gan y Cyngor lefelau gymharol uchel o gronfeydd wrth gefn ariannol sydd wedi cronni dros nifer o flynyddoedd. Mae gan y Cyngor dair cronfa<sup>2</sup> ar gyfer ariannu gofynion gwariant un tro, i ymdrin â gorwariant, neu i bontio cyn i arbedion ddod i rym. Mae cyfanswm y cronfeydd hyn wedi cwmpo o £23.874 miliwn i £11.153 miliwn yn ystod 2023-24. Mae'r Cyngor yn ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu diffyg yn y gyllideb craidd a gorwariant ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw defnydd parhaol o gronfeydd i osod cyllideb nac i ymateb i orwariant yn ddatrysiad cynaliadwy. Tra bod defnydd o gronfeydd yn ymateb i'r pwysau cyfredol, mae yn lleihau'r balansau sydd ar gael i'r Cyngor i gefnogi trawsnewid ac ailfodelu gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

<sup>2</sup> Cronfa Strategaeth Ariannol y Cyngor, Cronfa Adfer yn Sgil COVID a Chronfa Trawsfurfio

- 19 Mae gorwario o fewn gwasanaethau wedi cynyddu yn ddiweddar, a mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi bod angen dod i'r afael a hyn i fod yn gynaliadwy wrth iddynt osod cyllidebau blynyddol a cynlluniau hirdymor. Er enghraifft, mae ei adroddiad refeniw alldro 2023-24 yn nodi cyfanswm sefyllfa gorwariant o dros £9 miliwn gan wasanaethau ar ddiwedd y flwyddyn.<sup>3</sup> Yn yr un modd, yn 2022-23 gorwariodd gwasanaethau gyfanswm o dros £10 miliwn. Mae gan y Cyngor drefn bidio er mwyn ceisio ymateb i feysydd sydd yn gorwario yn flynyddol, ac mae camau rhagweithiol ar y gweill i leihau'r gorwariant. Nid yw'r Cyngor yn adolygu'r gyllideb yn ffurfiol ar ddiwedd y chwarter cyntaf, ond mae'r adolygiad cyllideb mwyaf diweddar yn cadarnhau bod angen ymdrech pellach i leihau'r bwch ariannu. Yn ogystal â rhoi pwysau ar ei gronfeydd wrth gefn, mae patrwm cyson o orwario yn peryglu tansellio cyflawni unrhyw arbedion arfaethedig yn y dyfodol.
- 20 Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn adnabod bylchau ariannol tebygol y bydd yn ei wynebu dros y tair blynedd nesaf. Fodd bynnag, mae angen iddo ddatblygu a ffurfioli trefniadau i oruchwyllo ei gynaliadwyedd hir dymor - gan gynnwys cynnydd wrth fynd i'r afael â'i fwch cyllido rhagamcanol. Mae'r Cyngor yn adrodd ar ei gyllidebau pob dau fis i gyfarfodydd herio a chefnogi perfformiad gyda'r aelod Cabinet, a dwywaith y flwyddyn i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac i'r Cabinet. Yn ystod cyfnod gwaith maes yr archwiliad hwn, mae'r Cyngor hefyd yn cymryd camau i gryfhau trefniadau adrodd drwy sefydlu trefn fisol i adolygu cyllidebau o fewn y deg maes sydd fwyaf tebygol o orwario yn y tymor byr. Mae'r Cyngor yn bwriadu i adolygu gwariant ac effaith pob adran er mwyn adnabod y gwasanaethau mwyaf hanfodol i bobol Gwynedd er mwyn adeiladu'r hyn maent o'r farn sydd o fewn eu gallu i ddarparu. Gall hyn helpu'r Cyngor i ddeall pryd a sut mae gwasanaethau allweddol yn gorwario, ond nid yw o reidrwydd yn golygu y gall fynd i'r afael â'r pwysau cynyddol hwn. Mae trefniadau adrodd clir, rheolaidd a thryloyw yn bwysig er mwyn galluogi goruchwyllo sefyllfa ariannol y Cyngor yn effeithiol, y camau y mae'n eu cymryd i sicrhau ei gynaliadwyedd ariannol ac effaith hyn ar ei gymunedau lleol.

<sup>3</sup> Gwnaeth chwech allan o un-ar-ddeg o adrannau'r Cyngor orwario yn 2023-24, gyda thri o'r rhain yn gorwario o dros £1 miliwn.

## Ein hargymhellion i'r Cyngor

### Arddangosyn 1: ein hargymhellion i'r Cyngor

#### Argymhellion

---

- A1 Gwelsom gyfyngiadau yn ymagwedd strategol y Cyngor i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, dylai'r Cyngor weithredu strategaeth ariannol hirdymor sy'n cefnogi ei ddealltwriaeth o'i sefyllfa ariannol tymor canolig ac yn llywio ei drawsnewid a'i flaenoriaethu gwasanaethau.



# Atodiad 1

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

**Arddangosyn 2: cwestiwn ar y cyfan: A oes gan y Cyngor drefniadau priodol i ategu ei gynaliadwyedd ariannol?**

Cwestiynau Lefel 2	Meini Prawf
A oes gan y Cyngor strategaeth eglur ar gyfer ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor?	<ul style="list-style-type: none"><li>• Mae'r Cyngor wedi nodi'n glir beth yw ei ddull strategol o ategu ei gydnerthedd ariannol dros y tymor byr, canolig a hir.</li><li>• Mae gan y Cyngor gynllun ariannol tymor canolig.</li><li>• Mae dull strategol y Cyngor yn cael ei ddeall yn eang a'i gefnogi gan uwch swyddogion.</li><li>• Mae'r Cyngor wedi ystyried ystod eang o opsiynau i wella ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor, gan gynnwys cymharu â chyrrff eraill.</li><li>• Mae'r Cyngor wedi adnabod yr holl arbedion y mae'n bwriadu eu gwneud i lenwi'r bwlch yn ei gyllid dros y tymor canolig, ac fe ategir hynny gan gynlluniau sy'n seiliedig ar dystiolaeth dda a thybiaethau rhesymol.</li><li>• Mae strategaeth y Cyngor yn cynnwys defnyddio cronfeydd wrth gefn yn strategol i reoli ei raglen arbedion dros y tymor canolig.</li><li>• Mae'r Cyngor wedi modelu effaith ddisgwyliedig ei strategaeth ariannol dros y tymor canolig (e.e. gostyngiadau posibl i wasanaethau a lefelau'r dreth gyngor) ar gymunedau lleol.</li></ul>
A yw strategaeth ariannol y Cyngor wedi'i hategu gan ddealltwriaeth eglur am ei sefyllfa ariannol?	<ul style="list-style-type: none"><li>• Mae'r Cyngor wedi cyfrifo'r bwlch yn ei gyllid dros y tymor byr a chanolig yn seiliedig ar dybiaethau rhesymol.</li><li>• Mae'r Cyngor wedi meincnodi ei dybiaethau gyda chyrrff eraill sy'n gymaryddion priodol.</li><li>• Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda am ei bwysau cyllidebol allweddol yn y tymor canolig a hir.</li><li>• Mae gan y Cyngor hanes o ymdrin yn llwyddiannus â phwysau cyllidebol allweddol.</li><li>• Mae'r Cyngor wedi adnabod y risgiau allweddol i'w gynaliadwyedd ariannol ac wedi rhoi mesurau lliniaru ar waith.</li></ul>
A yw trefniadau adrodd y Cyngor yn ategu goruchwyliaeth reolaidd ar ei gynaliadwyedd ariannol?	<ul style="list-style-type: none"><li>• Mae'n glir pwy sy'n gyfrifol am fonitro sefyllfa ariannol y Cyngor, gan gynnwys ei gynaliadwyedd dros y tymor canolig a hir.</li><li>• Mae'r Cyngor yn adrodd yn rheolaidd ar ei sefyllfa ariannol wrth aelodau i'w galluogi i wneud gwaith goruchwyllo a chraffu.</li><li>• Mae gan y Cyngor drefniadau i adrodd mewn modd tryloyw wrth aelodau a rhanddeiliaid eraill ar effaith wirioneddol/effaith ddisgwyliedig ei strategaeth ariannol ar gyflawni ei amcanion corfforaethol ac ar ei gymunedau lleol.</li></ul>

Cwestiynau Lefel 2	Meini Prawf
	<ul style="list-style-type: none"><li data-bbox="435 533 1380 622">• Mae cynllun arbedion y Cyngor yn cynnwys yr hyn y cytunwyd arno, faint o gynnydd a wnaed o ran ei roi ar waith, a chysylltiadau â'i gyllideb a'i gynllun ariannol tymor canolig.</li><li data-bbox="435 633 1396 701">• Mae'r Cyngor yn adrodd yn rheolaidd wrth aelodau ar gynnydd o ran cyflawni arbedion a gynlluniwyd i'w galluogi i wneud gwaith goruchwylio a chraffu.</li></ul>





Archwilio Cymru  
1 Cwr y Ddinas  
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.  
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.